# Infliximab, adalimumab a golimumab i drin llid briwiol gweithredol y coluddyn cymedrol i ddifrifol yn dilyn methiant therapi confensiynol

25 Chwefror 2015

## Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Argymhellir Infliximab (a elwir hefyd yn Remicade, Inflectra neu Remsima) adalimumab (Humira) a golimumab (Simponi). Maent yn driniaethau posibl ar gyfer oedolion sydd â llid briwiol gweithredol y coluddyn cymedrol i ddifrifol os nad yw therapi confensiynol wedi gweithio neu os nad yw'n addas.

Argymhellir Infliximab hefyd fel triniaeth bosibl i blant neu bobl ifanc rhwng 6 ac 17 oed sydd â llid briwiol y coluddyn difrifol os nad yw therapi confensiynol wedi gweithio neu os nad yw'n addas.

Dylai pobl gael y driniaeth am o leiaf 12 mis, oni bai ei fod yn peidio â gweithio'n ddigon da. Dylid asesu eu cyflwr o leiaf unwaith bob 12 mis. Dylai eu meddyg drafod y manteision a'r risgiau sy'n ymwneud â pharhau â'r driniaeth neu roi'r gorau iddi. Os bydd pobl yn rhoi'r gorau i'r driniaeth a bod eu llid briwiol y coluddyn yn gwaethygu, yna dylent gael dechrau'r driniaeth eto.

### *Beth mae hyn yn ei olygu i mi?*

Os ydych yn oedolyn sydd â llid briwiol gweithredol y coluddyn cymedrol i ddifrifol, a bod eich meddyg yn credu mai infliximab, adalimumab neu golimumab yw’r driniaeth gywir, dylech allu cael y driniaeth ar y GIG.

Os ydych yn blentyn neu'n berson ifanc sydd â llid briwiol y coluddyn difrifol, a bod eich meddyg yn credu mai infliximab yw’r driniaeth gywir, dylech allu cael y driniaeth ar y GIG.

Dylai'r triniaethau hyn fod ar gael ar y GIG o fewn tri mis i gyhoeddi'r canllawiau.

## Pam bod NICE wedi dweud hyn?

Mae NICE yn edrych ar lwyddiant y triniaethau mewn perthynas â'u cost o gymharu â thriniaethau eraill sydd ar gael ar y GIG.

Argymhellir infliximab, adalimumab a golimumab oherwydd bod y buddiannau i gleifion yn cyfiawnhau eu cost.

## Y cyflwr a'r triniaethau

Mae llid briwiol y coluddyn yn gyflwr hirdymor lle y daw leinin y coluddyn mawr yn llidus. Mae'r symptomau mwyaf cyffredin yn cynnwys dolur rhydd gwaedlyd, poen yn yr abdomen (bol) a'r angen i wagio eich coluddion yn aml. Mae therapi confensiynol yn cynnwys corticosteroidau a chyffuriau a elwir yn mercaptopurine ac azathioprine.

Mae infliximab (a elwir hefyd yn Remicade, Inflectra neu Remsima), adalimumab (Humira) a golimumab (Simponi) yn lleihau llid ar y coluddyn, gan leddfu'r symptomau.

Gall NHS Choices (www.nhs.uk) fod yn fan da i gael gwybod mwy.

## Ffynonellau cyngor a chefnogaeth

- Crohns and Colitis UK, 01727 8300 385, www.crohnsandcolitis.org.uk
- IA (the ileostomy and internal pouch support group), 0800 0184 724, www.iasupport.org

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN 978-1-4731-1188-2